



## Swyddog Datblygu Rhwydwaith

### Rhan-amser (0.4) am 6 mis

### Pecyn ymgeisio

#### Ynghylch y Gymdeithas

Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw academi genedlaethol Cymru. Rydym ni'n hyrwyddo rhagoriaeth ar draws yr holl feysydd academiaidd a thu hwnt. Rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth sydd gan arbenigwyr y Gymdeithas i hyrwyddo ymchwil, ysbrydoli dysgu, a chynnig cyngor polisi annibynnol. Mae'r Gymdeithas yn elusen Siarter Brenhinol ag iddi dros 500 o Gymrodyr, ac fe'i hystyrir yn llais awdurdodol, annibynnol a chredadwy ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Mae ein strategaeth pum mlynedd bresennol (2018-23) yn canolbwyntio ar bedwar amcan allweddol i'r Gymdeithas:

**1. Hyrwyddo ymchwil**

Cyflwyno digwyddiadau ansawdd uchel, dathlu rhagoriaeth, a chynnig llwyfannau i ymchwilwyr gyrfa gynnar

**2. Cyfrannu arbenigedd**

Cydlynu ymatebion arbenigol i ymgynghoriadau, cefnogi llunio polisi ar sail tystiolaeth, a harneisio ein harbenigedd i 'arwain y drafodaeth' mewn meysydd allweddol

**3. Hybu dysg a thrafodaeth**

Cyfathrebu cyflawniadau ein Cymrodyr, cefnogi ysgolion a cholegau a datblygu trafodaeth gyhoeddus ar faterion o bwys

**4. Datblygu'r Gymrodoriaeth**

Cynyddu ymwneud ein Cymrodyr â'n gwaith, ethol amrywiaeth ehangach o Gymrodyr, a gweithio gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo amrywiaeth

#### Y swydd hon

Gwaith y **Swyddog Datblygu Rhwydwaith** ydy datblygu gweithgareddau a chyrhaeddiad rhwydwaith cenedlaethol y Gymdeithas ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar. Sefydlwyd y rhwydwaith yn nhymor yr haf 2020, ac mae'n rhwydwaith e-bost am ddim gyda mwy na 750 o aelodau. Mae'r aelodau'n cynnwys pob prifysgol yng Nghymru a nifer fawr o ddisgyblaethau; maent yn amrywio o fyfyrwyr PhD i uwch ddarlithwyr.

Gan adeiladu ar ein dau seminar llwyddiannus cyntaf, bydd y Swyddog yn trefnu digwyddiadau pellach i aelodau, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a chydweithredu. Byddant yn datblygu cyrhaeddiad a phresenoldeb y rhwydwaith hefyd— ac yn darganfod disgyblaethau neu sefydliadau sydd yn cael eu tangynrychioli, ac adeiladu'r aelodaeth yn yr ardaloedd hynny. Yn olaf, byddant yn helpu i ddatblygu hunaniaeth a brand mwy clir ar gyfer y rhwydwaith.

Bydd y swydd hon yn cael ei rhannu gyda'n Swyddog Datblygu Rhwydwaith presennol, sydd eisoes yn gweithio un diwrnod yr wythnos ar y gweithgareddau hyn. Bydd y dyletswyddau sydd yn cael eu disgrifio isod yn cael eu cyflawni gan y ddau Swyddog gyda'i gilydd; byddwn yn gweithio gyda'r ddau ohonoch i ddyrannu gwaith yn briodol ac i'ch cefnogi. Mae swyddfa'r Gymdeithas yng Nghaerdydd ar gau am y tro, felly mae'r rôl hon wedi'i lleoli o gartref ar hyn o bryd.



## Ffeithiau allweddol am y rôl hon

<b>Cyflog</b>	£20,130 pro rata (Cyflog gwirioneddol o £4,026 dros 6 mis)
<b>Rheolwr llinell</b>	Chief Executive
<b>Telerau cyflogaeth</b>	Swydd ran amser, cyfnod penodol am 6 mis o ddyddiad y penodiad yw hon. Rhaid cwblhau cyfnod prawf o 6 wythnos yn foddhaol cyn cadarnhau'r penodiad. Yn dilyn cadarnhad, gellir terfynu'r penodiad gyda dim llai na 1 mis o rybudd ysgrifenedig gan y naill ochr neu'r llall.
<b>Oriau</b>	14 awr yr wythnos (2 diwrnod), fel arfer rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Gellir trefnu gweithio hyblyg; caiff y patrwm oriau ei gytuno gyda'r rheolwr llinell cyn dechrau.
<b>Gwyliau blyneddol</b>	Yr hawl gwyliau sylfaenol yw 35 awr dros 6 mis, i'w cymryd mewn cytundeb â'r rheolwr llinell. Yn ogystal, byddwch yn cael cyfran pro rata o wyliau cyhoeddus a 'diwrnodau arferol'.
<b>Teithio</b>	Bydd costau'n cael eu had-dalu am unrhyw deithio gofynnol, ond mae'r rôl wedi'i lleoli yn y swyddfa yn bennaf.

## Dyletswyddau allweddol

### Cyflwyno digwyddiadau Ymchwil Gyrfa Cynnar

Byddwch yn cefnogi aelodau'r rhwydwaith drwy drefnu seminarau a digwyddiadau rhwydweithio. Byddwch yn gweithio gydag aelodau allweddol eraill o staff, a bydd y rhan hon o'r swydd yn cynnwys:

- Cytuno ar siaradwyr a chyfranogwyr eraill, cysylltu â nhw yn ystod y broses gynllunio, a'u briffio ar drefniadau digwyddiadau
- Cytuno ar ddyddiadau/amseroedd, trefnu cyfarfodydd Zoom a rhoi gwybod i aelodau eraill y tîm am y calendr
- Creu proses gofrestru ar gyfer digwyddiadau ar Zoom
- Ysgrifennu disgrifiadau o ddigwyddiadau a threfnu cyfieithiadau
- Rhoi gwybod i'r rhwydwaith am ddigwyddiadau trwy gyfrwng ein rhestr bostio, y cyfryngau cymdeithasol a thrwy e-bost gydag unigolion perthnasol
- Trefnu amserlenni digwyddiadau, arolygon ôl-ddigwyddiadau ac unrhyw wybodaeth arall y gallai fod ei hangen
- Trefnu sylw ar y cyfryngau cymdeithasol a lanlwytho fideos o ddigwyddiadau

### Datblygu elfen gyfathrebu'r rhwydwaith

Mae hyn yn cynnwys:

- Bod y prif berson cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch y rhwydwaith
- Dod o hyd i ddigwyddiadau, gwobrau a chyfleoedd eraill o ddiddordeb i aelodau'r rhwydwaith, a pharatoi ac anfon bwletin MailChimp misol i dynnu sylw atynt
- Datblygu hunaniaeth fwy clir ar gyfer y rhwydwaith o fewn Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gan gynnwys tudalennau gwefan a phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol



- Trosglwyddo gwybodaeth berthnasol i'r Swyddog Cyfathrebu i'w chynnwys ym mwletinau /gwaith cyfryngau cymdeithasol ehangach y Gymdeithas
- Sicrhau ein bod ni'n darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg, a bod unrhyw gyfathrebu/gohebiaeth yn cydymffurfio â pholisi dwyieithrwydd y Gymdeithas

### Cynyddu cyrhaeddiad a defnyddioldeb y rhwydwaith

Mae hyn yn cynnwys:

- Paratoi a dosbarthu holiaduron i wella ein dealltwriaeth o aelodaeth y rhwydwaith, cael adborth ar ddigwyddiadau, a chasglu barnau ar weithgareddau yn y dyfodol
- Nodi bylchau mewn aelodaeth o wahanol sefydliadau, disgyblaethau academiaidd a nodweddion eraill
- Ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn cynyddu amrywiaeth aelodaeth
- Ymgysylltu â phrifysgolion a sefydliadau eraill sy'n gweithio gydag Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar, i ddarganfod cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithredu, a sicrhau bod ein cynnig yn unigryw

### Dyletswyddau eraill

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm staff, a chymryd diddordeb brwd yng ngweithgarwch cyffredinol y Gymdeithas
- Cyflawni dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn rhesymol gan y Prif Weithredwr

<b>Manyleb yr Unigolyn</b>			
	<b>Meini Prawf</b>	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
<b>Gwybodaeth a phrofiad</b>	Profiad o weithio ym maes addysg uwch fel athro, ymchwilydd neu weithiwr cymorth ymchwil	✓	
	Dealltwriaeth o'r sector ymchwil yng Nghymru ac o ddiddordebau, cyfleoedd a heriau ymchwilwyr gyrfa cynnar	✓	
	Profiad o drefnu digwyddiadau a/neu gyfarfodydd, gan gynnwys digwyddiadau ar-lein		✓
	Profiad o gynhyrchu cylchlythyrau drwy e-bost, cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys cyfathrebu eraill		✓
<b>Sgiliau, galluoedd ac agwedd</b>	Yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn ddiddorol â chynulleidfaoedd amrywiol, yn ddelfrydol yn Gymraeg ac yn Saesneg	✓	
	Yn hyderus wrth estyn allan a chreu perthnasau newydd, gan gynnwys gyda'r rheiny y tu allan i'ch maes arbenigedd eich hun	✓	
	Yn gallu gweithio'n gywir ac yn effeithlon i derfynau amser penodol, a blaenoriaethu tasgau yn ôl yr angen	✓	
	Gallu meddwl yn greadigol, datrys problemau a gwneud argymhellion ar gyfer gwella	✓	
	Strong IT skills, especially in Microsoft Office	✓	
	Commitment to / interest in the Society's mission and aims		✓

**Mae'r swydd hon yn bosib o ganlyniad i gyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.**



## Y broses ymgeisio

- Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cyn penderfynu ymgeisio ai peidio, cysylltwch â Martin Pollard ([mpollard@lsw.wales.ac.uk](mailto:mpollard@lsw.wales.ac.uk)) i drefnu sgwrs anffurfiol.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau ar ffurflen gais swyddogol y Gymdeithas. Dylech ddarparu pob gwybodaeth berthnasol ar y ffurflen, gan na fyddwn yn ystyried CV na lythyr eglurhaol yn rhan o'ch cais. Dylech sicrhau bod y ddogfen derfynol yn cael ei chadw ar fformat Word neu PDF.
- Pan fyddwch chi'n ysgrifennu'r Datganiad Cefnogol, rhowch wybod i ni **sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol** ym Manyleb yr Unigolyn (a'r meini prawf dymunol os yn bosibl). Rydym ni'n argymhell eich bod yn ymdrin â'r meini prawf yn eu trefn, gan eu defnyddio fel penawdau; bydd hyn yn ein helpu i asesu eich cais yn haws. Dylech ddweud wrthym hefyd **pam fod gennych ddiddordeb yn y swydd hon**.
- Ebostiwch eich cais at **Amanda Kirk** ([akirk@lsw.wales.ac.uk](mailto:akirk@lsw.wales.ac.uk)) erbyn **hanner dydd ar Ddydd Mercher 28 Ebrill**.
- Cwblhewch ein Holiadur Monitro Cyfleoedd Cyfartal yn <https://www.smartsurvey.co.uk/s/B1H26X/> Mae'r arolwg hwn yn ddiennw ac ni chaiff ei ystyried fel rhan o'r broses ymgeisio.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

- Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth ebost at yr holl ymgeiswyr. Os nad ydych chi'n derbyn cydnabyddiaeth cyn **09.00 ar 29 Ebrill**, cysylltwch â ni. Ni ellir ein dal yn gyfrifol am geisiadau nad ydynt yn ein cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.
- Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn dethol nifer o ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad. Os byddwn yn eich dewis chi, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol. **Cynhelir y cyfweliadau dros Zoom yn ystod yr wythnos yn dechrau 10 Mai**. Os nad ydych chi wedi derbyn gwahoddiad i gyfweliad o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech ystyried bod eich cais yn aflwyddiannus.
- Byddwn yn gwneud cynnig amodol o gyflogaeth i'n dewis ymgeisydd. Yna byddwn yn cysylltu â'r canolwyr ac os yw'r geirada'n foddhaol, byddwn yn cadarnhau'r cynnig.
- Rydym ni'n cadw'r hawl i beidio â phenodi os ydym yn pennu nad oes unrhyw un o'r ymgeiswyr yn bodloni'r safon ofynnol.